

## **Amodau Defnydd ar gyfer Cynnig Staff Prifysgol Abertawe yn Cynnig Graddau 1-4 Ionawr 2019**

### **Mwynhewch gyfraddau myfyrwyr, gostyngiad 50% fis Ionawr ar dâl aelodaeth misol a dim ffi ymaelodi**

#### **Amodau a Thelerau**

- Yn amodol ar yr amodau isod, os ydych yn gyflogai ym Mhrifysgol Abertawe ar Raddau 1, 2, 3 neu 4 (yn ennill yn llai na £21,414 y flwyddyn), sy'n ymaelodi a Chanolfan Chwaraeon Prifysgol Abertawe o 1 Rhagfyr 2018 hyd at 31 Ionawr 2019, yna gallwch dderbyn unrhyw aelodaeth staff y tu allan i oriau brig neu yn ystod oriau brig ar gyfradd myfyrwyr, derbyn gostyngiad o 50% ar unrhyw aelodaeth fisol â thâl yn ystod mis Ionawr ac ni chodir tâl ymaelodi arnoch.
- Nid yw'r cynnig hwn ar gael i gyflogeion Prifysgol Abertawe ar Radd 5 ac uwch (yn ennill dros £21,414) nac unrhyw aelod cyswllt nac unrhyw gwmni arall a leolir ar Gampws Prifysgol Abertawe, nac unrhyw unigolyn y mae wedi'i eithrio rhag mynychu unrhyw Ganolfan Chwaraeon Prifysgol Abertawe yn flaenorol. Gweler [www.swansea.ac.uk/sport/facilities/memberships/](http://www.swansea.ac.uk/sport/facilities/memberships/) am fanylion am ein holl gategoriâu aelodaeth a chyfraddau.
- Ni ellir defnyddio'r cynnig hwn ar y cyd ag unrhyw gynnig arall.
- Mae'r cynnig yn amodol ar argaeledd a disgresiwn y Rheolwr a gellir ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg.
- Mae'r cynnig hwn yn gyfyngedig i un fesul pob unigolyn cymwys. Mae'n rhaid i ddarpar aelodau ddod â phrawf adnabod â ffotograff i'w hapwyntiad.
- Nid yw'r cynnig yn cynnwys gweithgareddau y codir tâl amdanynt, e.e. hyfforddiant personol, tyllino, ffisiotherapydd ac unrhyw weithgareddau neu ddosbarthiadau eraill sy'n codi tâl.
- Isafswm oedran, 18 oed.
- Mae mynediad i'n cyfleusterau chwaraeon, ffitrwydd a lles yn amodol ar yr amodau a'r telerau hyn ac amodau defnyddio ein cyfleusterau chwaraeon, ffitrwydd a lles. Gall y cyfleusterau, y ffioedd, y gweithgareddau a'r dosbarthiadau amrywio. Rydych chi'n derbyn unrhyw risg wrth ddefnyddio'r cyfleusterau chwaraeon, ffitrwydd a lles.
- Mae Prifysgol Abertawe'n cadw'r hawl i derfynu neu amrywio'r cynnig hwn ar unrhyw adeg.
- Nid yw'r Hyrwyddwr yn atebol am atgynhyrchu'r cynnig hwn na mynediad anuniongyrchol drwy wefannau trydydd parti, neu unrhyw fath arall o atgynhyrchu'r telerau hyn lle mae'r fath atgynhyrchu'n camliwio neu'n hepgor unrhyw ran o'r wybodaeth neu'r amodau a thelerau sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn.
- Ni thbyir bod unrhyw beth yn yr amodau a thelerau hyn yn eithrio nac yn cyfyngu ar hawliau statudol unigolion cymwys fel defnyddwyr. Mae'r manylion yn gywir ar adeg argraffu.

Yr Hyrwyddwr yw: Prifysgol Abertawe a'i chyfeiriad cofrestredig yw: Parc Singleton, Abertawe SA2 8PP Cymru, Y DU.